


AMAETHYDDIAETH A GOFAL ANIFEILIAID



£21,164
£11.00/AWR

CYFARTALEDD
CYFLOGAU
NODWEDDIADOL YN
Y DIWYDIANT HWNY

CYFANSWM Y
SWYDDI YN Y
DIWYDIANT HWN

7,071 CYMRU
126,457 DU



A yw natur a'r amgylchedd yn bwysig i chi? Efallai bod gofalu am anifeiliaid yn agos at eich calon?

Mae'r sector amaethyddiaeth yn chwarae rôl allweddol yn economi DU gyda digonedd o swyddi yn y maes hwn, o aredig a chynhaeaf cynydu, magu neu ofalu am anifeiliaid, rheoli amgylcheddau cefn gwlad a darparu gwersi reidio.

Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaoedd y gallech chi eu dilyn:

Gofal Anifeiliaid

Os ydych wrth eich bodd ag anifeiliaid, pam na wnewch yrfa o hynny? O redeg cathdy, gweithio gydag ymlusgiaid neu hyfforddi ceffylau; mae gofalu anifeiliaid yn ymwneud â thrin, goruchwyllo a gofalu am anifeiliaid o bob maint, o anifeiliaid anwes domestig bychain i fywyd gwyllt.

Milfeddygol

Hyfforddych fel nyrs filfeddygol, yn gofalu am anifeiliaid bob awr o'r dydd. Hefyd, gallech astudio ymhellach i ddod yn filfeddyg.

Ceffylau

Os ydych wrth eich bodd â cheffylau ac nid oes gwahaniaeth gennych fod allan ym mhob tywydd, yna dyma'r yrfa ar eich cyfer chi! Gafaelwch yn y careiau ffrwyn a dysgwch sut i roi gwersi i eraill neu carlamwch ymlaen i reoli digwyddiadau yn yr arena. Boed y naill

ffordd neu'r llall, gallwch gael swydd yn gwneud yr hyn sy'n agos at eich calon.

Amaethyddiaeth a Chadwraeth


Maes sy'n ehangu yn y DU! Mae amaethyddiaeth yn ymwneud â ffermydd, llaethdai ac 'amaethfusnesau' - cwmnïau sy'n cyflenwi'r diwydiant â phorthiant, gwrteithiau a pheiriannau fferm. Nid yn unig mae rheoli coetiroedd neu gadwraeth amgylcheddol yn arbed y blaned, maent hefyd yn darparu datrysiadau am amgylchedd cynaliadwy, iach.

Peirianneg Tir

Diddordeb mewn cadw'r amgylchedd a sut mae pethau'n gweithio? Yna mae peirianneg tir yn ddelfrydol ar eich cyfer chi. Mae'r swyddi yn cynnwys dylunio, gweithgynhyrchu a chynnal offer amaethyddol megis dyrnwyr medi a thractorau, gan weithio i ddelwriaethau a gweithgynhyrchwyr.

**TRWY DDATBLYGU
EICH SGILIAU
MEWN GOFAL
ANIFEILIAID A
MILFEDDYGAETH,
GALLECH CHI
FOD Y 'SUPERVET'
NESAF!**

(ffynhonnell EMSI Q1 2018 Dataset/Gyrfa Cymru)



Dolenni Defnyddiol

www.lantra.co.uk
Lantra, y corff dyfarnu blaenllaw ar gyfer hyfforddiant tir ac amgylcheddol

www.rspca.org.uk
RSPCA, Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals

www.forestry.gov.uk
Y Comisiwn Coedwigaeth

Beth y caf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	B
Astudiaethau Tir - Amaethyddiaeth, Anifeiliaid a Cheffylau - Lefel 1	1 Flwyddyn	✓
Amaethyddiaeth a Chefn Gwlad - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓
Rheoli Amaethyddiaeth a Chefn Gwlad (Diploma Estynedig) - Lefel 3	1 Flwyddyn	✓
Gofal Anifeiliaid - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓
Rheoli Anifeiliaid (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd	✓
Gofal Ceffylau - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓
Rheoli Ceffylau (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd	✓
Ychwanegiad BSc - Iechyd a Lles Anifeiliaid	1 Flwyddyn	✓
Ychwanegiad BSc - Nyrsio Milfeddygol	1 Flwyddyn	✓
Iechyd a Lles Anifeiliaid - Gradd Sylfaen	1 Flwyddyn	✓
Astudiaethau Ceffylau - Gradd Sylfaen	1 Flwyddyn	✓
Nyrsio Milfeddygol - Gradd Sylfaen	1 Flwyddyn	✓

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk | admissions@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: B - Campws Brynbuga

